Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Cwm Penamnen (Taith Byr), Dolwyddelan

HAWDD



Trosolwg o'r Daith

Pellter: 3.5km (2.2 milltir)

Hyd: 1 awr

Math o daith: Cylchdaith

⚠ Cyn i chi gychwyn

Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

eryri.llyw.cymru

V-20231111/1912

1

Cerddwch allan o'r maes parcio gan droi i'r chwith i fynd dros bont y trên.

2



Ar ôl croesi'r bont, dilynwch y ffordd i'r chwith ac yna trowch i'r dde am Gwm Penamnen gan fynd heibio stryd Glan Gors. Dilynwch y trac i fyny am y coed.

3



Pan ddowch at gyffordd yn y ffordd, fe welwch arwyddbost bychan, cymerwch y troad i'r dde, i lawr drwy'r coed ac i mewn i'r cwm.

4



Pan welwch yr arwydd Pont Carreg Alltrem, trowch i'r dde gan fynd dros y bont a chroesi'r afon Penamnen. O'r bont, cewch olygfa wych o'r Foel Goch i'r chwith.

5



Wedi cyrraedd y lan ar yr ochr arall, trowch i'r dde gan fynd heibio'r byrddau picnic a dilyn y trac yn ôl i lawr i'r pentref. Byddwch yn mynd heibio Tai Penamnen. Mae'r trac yn eich arwain yn ôl at bont y trên. Ewch drosti gan droi i'r dde yn ôl i mewn i'r maes parcio.